

## Cynigion – lansio canŵs ar Afon Gwy o gomin Clas-y-bont Uchaf, Y Clas ar Wy.

Mae'r Cyngor yn caniatáu lansio canŵs o gomin Clas-y-bont Uchaf (Y Clas ar Wy) ar Afon Gwy.

Ers 2014, mae lansio canŵs o'r comin wedi'i ganiatáu gydol y flwyddyn o 10am hyd 4pm bob dydd, er mwyn i ganŵwyr allu defnyddio'r trefniant mynediad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Gwy a Wysg i deithio o'r Clas ar Wy i lawr i'r Gelli Gandryll.

*Sylwer o fis Mai 2018, nid oedd y trefniant yma yn cael ei gyhoeddi mwyach ar eu gwefan. Ers hynny, mae natur a chynnwys y trefniant mynediad hwnnw wedi profi i fod yn aneglur.*

Mae hyn wedi golygu nifer o heriau, yn ogystal â chyfleoedd. Mae gwaith wedi bod ar y gweill ers 2016 i roi Cod Ymddygiad ar waith, yn sylfaen ar gyfer lansio canŵs o dir y Cyngor yng nghomin Clas-y-bont Uchaf. Mae'r trafodaethau a arweiniodd at y Cod Ymddygiad wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth fynd i'r afael â nifer o broblemau ac wedi rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r rhai y mae lansio canŵs yn effeithio arnynt.

Yr her sy'n parhau i'n hwynebu yw ceisio cydbwysedd cynaliadwy rhwng amlder y defnydd o ganŵs sy'n digwydd ar yr adegau prysur gyda'r gweithgareddau eraill sy'n digwydd ar yr afon neu ar lan yr afon ar yr un pryd. Mae hynny'n cynnwys rheoli'r tir a physgota, boed gan fusnesau, sefydliadau neu unigolion, yn ogystal â chadwraeth natur a mathau eraill o hamdden.

Rydym yn canolbwyntio bellach ar edrych ar weithgareddau masnachol gyda'r canŵs i ddarganfod sut y gallwn gydbwysu'r gweithgareddau busnes hynny â gweithgareddau eraill sy'n digwydd ar yr afon neu ar ei glannau. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn os yw'r Cyngor i barhau i ganiatáu lansio canŵs o gomin Clas-y-bont Uchaf er mwyn i ganŵwyr deithio i lawr i'r Gelli Gandryll. Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i beidio ag amharu â hawliau pysgota i lawr yr afon o'r comin.

Ystyrir gweithgareddau sy'n digwydd er mwyn 'llogi a gwobrwyo' yn rhai masnachol, felly nid yw'n cynnwys unigolion â'u canŵs eu hunain, clybiau canŵio neu grwpiau neu sefydliadau nid-er-elw.

Fodd bynnag, gallai rhai o'r dewisiadau ar gyfer rheoli effeithio ar ddefnydd anfasnachol o ganŵs, felly rydym yn ceisio barn pawb â budd yn y mater. Y nod yw sicrhau trefniant gwirfoddol, yn hytrach na rhoi rheoliadau ffurfiol ar waith.

Y dewisiadau sydd wedi'u nodi eisoes (heb fod mewn unrhyw drefn benodol) yw:

1. Dangosyddion lefel dwr – ni fyddai lansio'n cael ei ganiatáu oni bai fod y dwr yn cyrraedd lefel benodol; gallai hynny effeithio ar bob canŵydd, boed yn rhan o gwmni masnachol neu beidio.
2. Cyfyngu lansio fel rhan o weithgareddau masnachol i ddyddiau penodol o'r wythnos – ni fyddai lansio fel rhan o weithgaredd masnachol yn cael ei ganiatáu ond ar ddyddiau penodol o'r wythnos. Ni fyddai hyn yn cyfyngu ar unigolion, clybiau canŵio a grwpiau nid-er-elw.
3. Caniatáu lansio i grwpiau tywysedig ar ddyddiau penodol o'r wythnos yn unig, ond caniatáu grwpiau nad ydynt yn cael eu tywys ar ddyddiau eraill – byddai hyn yn berthnasol i gwmnïau masnachol yn unig.
4. Cynllun rheoli canolog sy'n cael ei ariannu gan gyfraniadau ariannol i dalu am gostau monitro a gorfodi. Byddai hyn yn berthnasol i gwmnïau masnachol yn unig.

5. Cyfraniad ariannol tuag at sefydliad (e.e. elusen) neu weithgaredd y credir ei fod yn fuddiol i'r afon yn gyffredinol, yn hytrach nag i unrhyw unigolyn neu fusnes, neu hyd yn oed elusen gwbl wahanol a enwebir. Gellid sicrhau bod cyfraniadau'n codi ar gwmnïau masnachol, ond eu gwahodd gan eraill.
6. Gosod cwota ar gyfer defnydd masnachol bob dydd, e.e. trwy fod â nifer gosodedig o docynnau bob dydd. Byddai hyn yn berthnasol i gwmnïau masnachol yn unig.
7. Gwneud yn siŵr bod modd i'r canŵwyr weld y pysgotwyr yn haws (e.e. trwy osod baneri ar y coed), er mwyn caniatáu rhagor o amser i'r canŵwyr eu hosgoi, ac felly i leihau aflonyddu posibl arnynt
8. Gosod arwyddion ger rhannau sensitif o'r afon, fel bod modd i'r canŵwyr adnabod y lleoliadau hynny ac ymddwyn yn briodol (e.e. "teithiwch yn ddistaw am y 500m nesaf")
9. Cyfyngiadau ar Faint Grwpiau – gallai'r rhain gyfyngu ar faint a nifer y grwpiau y gallai cwmni masnachol eu caniatáu ar yr afon yn ystod unrhyw ddiwrnod penodol.
10. 'Ffenestri Lansio' byrrach, fel na fyddai cwmnïau masnacho yn gallu lansio y tu allan i adegau penodol ar ddyddiau brig, er mwyn i'r traffig canŵs glirio'r afon at ddefnydd defnyddwyr eraill erbyn cano y prynhawn.
11. 'Ffenestr Lansio' byrrach ar gyfer grwpiau heb dywysydd yn unig ar ddyddiau brig. Byddai hyn yn berthnasol dim ond i grwpiau sy'n cael eu lansio gan gwmnïau masnachol.